# AROLWG BUSNESAU YNG NGHEFN GWLAD

Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

## MEHEFIN 2008

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar ganlyniadau arolwg o 1034 o fusnesau yng nghefn gwlad Cymru gan Arsyllfa Wledig Cymru [AWC] yn ystod 2007.

### Y CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

- Roedd y prif fathau o fusnesau a welwyd yn perthyn i'r sectorau Manwerthu; Llety, Bwyd a Diod; ac Adeiladu.
- Roedd bron pedair gwaith yn fwy o berchnogion busnes gwryw na pherchnogion benyw.
- Roedd 62% o'r busnesau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW; roedd 58% wedi cynyddu eu trosiant; ac roedd 42% wedi cynyddu eu helw.
- Roedd gan 64% o'r busnesau a arolygwyd weithwyr cyflogedig – roedd 68% o'r gweithwyr amser-llawn yn wryw a 71% o'r gweithwyr rhan-amser yn fenyw.
- O ran recriwtio, soniodd busnesau am brinder ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi yng nghefn gwlad Cymru, ynghyd â chronfa fach o lafur medrus a chyraeddiadau addysgol isel.
- Roedd y bygythiadau tybiedig i fusnes yn cynnwys uwchfarchnadoedd, prinder llafur medrus ag ysgogiad ac ymroddiad, a chwsmeriaid a oedd yn heneiddio.
- Roedd 50% o'r busnesau wedi ehangu dros y pum mlynedd diwethaf, ac roedd 40% o'r busnesau'n bwriadu ehangu dros y ddwy flynedd nesaf.
- Roedd 61% o'r busnesau'n ailgylchu cynhyrchion gwastraff.
- Roedd manteision cefn gwlad Cymru ar gyfer busnes yn cynnwys harddwch y golygfeydd, ansawdd bywyd uchel, teimlad cymunedol lleol cryf, marchnadoedd arbenigol, costau is a gorbenion is.
- Mynegwyd pryderon am ddwysedd poblogaeth isel, economi o gyflogau isel, nifer fach o gwsmeriaid, dibyniaeth ar waith tymhorol, a marchnadoedd cyfyngedig.

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYD

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Yr Ymchwil**
Gan dîm ym Mhrifysgol ar ran Arsyllfa Wledig Cymru (AWC)

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Y CEFNDIR

Dyma ail adroddiad AWC ar fusnesau yng nghefn gwlad Cymru ac mae'n cynnig diweddariad ar weithgareddau busnes ers 2004. Mae'r arolwg y seiliwyd yr adroddiad arno yn debyg i'r arolwg a ddefnyddiwyd yn ein harolwg blaenorol (2004), er bod cwestiynau newydd am fusnes a'r amgylchedd wedi'u hychwanegu at yr arolwg diweddaraf a bod busnesau wedi cael y dewis o lenwi'r holiadur yn electronig. Fel yn achos arolwg 2004, gofynnwyd iddo gael ei lenwi gan berchennog y busnes neu ar ei ran.

Roedd y diffiniad o gefn gwlad Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn yn ehangach na'r diffiniad blaenorol a chafodd ei seilio ar yr un a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei phapur ymgynghori ar Gynllun Datblygu Gwledig Drafft Cymru (2007-2013).

## Y FETHODOLEG

Cynlluniwyd Arolwg Busnesau 2007 fel rhan annatod o raglen waith AWC. Sail resymegol yr arolwg oedd darparu llawer o ddata am gyflwr busnesau gwledig Cymru yn 2007 ac edrych ar newidiadau ers 2004.

Nod Arolwg Busnesau 2007 oedd ymchwilio i gyflwr gweithgareddau busnesau gwledig yng Nghymru, heblaw ffermydd. Roedd hyn yn golygu ystyried a chyfrif agweddau perchnogion busnesau gwledig at amrywiaeth o faterion busnes, economaidd ac amgylcheddol, a chanfod pa newidiadau sydd wedi effeithio ar fusnesau yng nghefn gwlad Cymru.

Cysylltwyd â chyfanswm o 8,000 o fusnesau a daeth 1034 o ymatebion i law. Roedd y gyfradd ymateb hon yn debyg i arolwg 2004.

## Yr Holiadur

Defnyddiodd holiadur arolwg 2007 holiadur 2004 yn dempled sylfaenol, gyda nifer o addasiadau a diweddariadau, gan gynnwys ambell thema newydd ac ambell faes newydd i ymholi yn ei gylch. Roedd i'r holiadur wyth adran:

Adran 1 – Darlun o'r Busnes a'r Perchennog
Adran 2 – Ynglyn â'ch Gweithwyr
Adran 3 – Cyflogi a Hyfforddi eich Gweithwyr
Adran 4 - Gweithrediad eich Busnes a Strategaeth
Adran 5 – Cefnogaeth Busnes
Adran 6 – Newidiadau mewn Gweithgareddau Busnes
Adran 7 – Eich Busnes a'r Amgylchedd
Adran 8 – Gwybodaeth Ariannol

## Y CANFYDDIADAU

### Cyflwr Gweithgareddau Busnesau Gwledig yng Nghymru

#### *Y Mathau o Fusnesau yng nghefn gwlad Cymru*

O ran y mathau o fusnesau a arolygwyd, roedd 62% wedi'u cofrestru ar gyfer TAW a'r prif gategorïau oedd Manwerthu (20%); Llety, Bwyd a Diod (17%); ac Adeiladu (10%).

Roedd perchnogion busnesau bron pedair gwaith yn debycach o fod yn wryw na benyw (79% yn erbyn 21%) ac roedd y mwyafrif llethol (71%) rhwng 40 a 64 oed. O gymharu data arolygon 2004 a 2007, roedd yn ymddangos bod tuedd tuag at boblogaeth o berchnogion busnes sy'n heneiddio yng nghefn gwlad Cymru.

Yn 28%, cyfran gymharol fach o berchnogion busnesau a oedd wedi cael hyfforddiant busnes ffurfiol. Ar ben hynny, dim ond 35% oedd yn credu bod hyfforddiant busnes ffurfiol yn bwysig ac roedd 25% yn credu nad oedd yn bwysig. Roedd yr agweddau negyddol hyn at hyfforddiant ac arferion busnes ffurfiol yn tueddu i gael eu cario drosodd i fyd gweithrediadau a strategaethau busnes, lle'r oedd cynllun busnes ysgrifenedig gan 31% yn unig o fusnesau, a chynllun marchnata ysgrifenedig gan 18%.

Yn ychwanegol, nid oedd 64% o'r ymatebwyr yn gwneud gwaith Ymchwilio a Datblygu. Y prif resymau a roddwyd oedd diffyg adnoddau, cyfyngiadau ariannol a bod dim angen amlwg.

#### *Gweithwyr a Busnesau yng Nghefn Gwlad Cymru*

O'r busnesau a arolygwyd, roedd gan 64% weithwyr cyflogedig. Roedd cyfanswm o 663 o fusnesau yn cyflogi 11,075 o weithwyr. Gan atgyfnerthu ymchwil flaenorol, roedd mwy o weithwyr gwryw amser-llawn nag o weithwyr benyw (68% yn erbyn 32%) ac roedd mwy o weithwyr benyw rhan-amser nag o weithwyr gwryw (29% yn erbyn 71%).

Y gair llafar oedd y dull recriwtio mwyaf cyffredin o hyd; yn wir, gwelwyd cynnydd ynddo o 40% yn 2004 i 43% yn 2007. Yn lleol roedd y mwyafrif o'r gweithwyr yn cael eu recriwtio, gyda 64% yn cael eu recriwtio o fewn 10 milltir i'r gweithle.

Isel oedd yr ymateb ar gyfer y Cynllun Cofrestru Gweithwyr [WRS], gyda 17 o fusnesau'n cyflogi cyfanswm o 74 o weithwyr WRS.

*Cwsmeriaid a Chyflenwyr*

Roedd gan saith o bob deg busnes gwsmeriaid o fewn radiws o 20 milltir. Roedd cwsmeriaid pellter hir yn tueddu i fod yn llai cyffredin, er bod gan 22% o'r busnesau gwsmeriaid rhyngwladol. Roedd y cyflenwyr yn tueddu i fod ymhellach i ffwrdd na'r cwsmeriaid, ond dim ond 13% o'r busnesau oedd â chyflenwyr rhyngwladol. Mae'r Tabl isod yn dangos amrediadau'r cwsmeriaid a'r cyflenwyr.

| Amrediad mewn milltiroedd | % y busnesau â chwsmeriaid a chyflenwyr yn yr amrediad | |
|---|---|---|
| | Cwsmeriaid | Cyflenwyr |
| Llai nag 20 | 70% | 55% |
| 20-60 | 62% | 50% |
| Mwy na 60 | 53% | 58% |
| Y tu allan i'r DU | 22% | 13% |

## Agweddau ac Argraffiadau Perchnogion Busnesau yng Nghefn Gwlad Cymru

*Y Farchnad Lafur yng Nghefn Gwlad Cymru*

Roedd yn ymddangos bod mesur o anfoddhad ar ansawdd y gweithwyr posibl ac ar asiantaethau recriwtio. Cytunodd hanner yr ymatebwyr fod prinder ymgeiswyr ar gyfer swyddi a chytunodd 63% ei bod yn anodd recriwtio gweithwyr oedd â sgiliau priodol. Yn gyffredinol, roedd yn well gan fusnesau yng nghefn gwlad Cymru rwydweithiau anffurfiol ar gyfer recriwtio; credai 38% nad oedd yr asiantaethau recriwtio ffurfiol (e.e. Canolfannau Gwaith) yn darparu ymgeiswyr da, a dim ond 13% oedd yn credu eu bod yn darparu ymgeiswyr da.

*Manteision ac Anfanteision Cefn Gwlad Cymru fel Lleoliad Busnes*

Prif fanteision cefn gwlad Cymru fel lleoliad ar gyfer busnes a enwyd gan yr ymatebwyr oedd harddwch ei golygfeydd, ansawdd bywyd uchel a'r ymdeimlad lleol cryf o gymuned. O ran yr economi, credid bod manteision o arwain y maes mewn marchnadoedd bach ac arbenigol, heb gystadleuaeth o du'r cwmnïau mawr, costau a gorbenion is, mangreoedd fforddiadwy, ac amserau a chostau cymudo oedd yn llai neu'n ddim byd.

Y prif ffactorau negyddol a enwyd gan fusnesau oedd dwysedd isel y boblogaeth, incwm isel i'w wario, nifer fach o gwsmeriaid, dibyniaeth ar waith tymhorol, a marchnadoedd cyfyngedig. Yn ychwanegol, roedd yna argraff fod y gronfa o lafur medrus yn fach a bod y cyraeddiadau addysgol yn isel. Roedd natur anghysbell rhai mannau yng nghefn gwlad yn golygu costau tanwydd a chymudo uchel; ffyrdd gwael; cludiant cyhoeddus annigonol; a chysylltiadau gwael yn gyffredinol â chludiant a gwasanaethau eraill.

Roedd ffactorau fel y boblogaeth sy'n heneiddio yng nghefn gwlad, y twf yn y sector amgylcheddol, a chryfder hunaniaeth a diwylliant Cymru yn cael eu gweld fel cyfleoedd gan rai ymatebwyr ac fel bygythiadau gan eraill.

*Busnesau Gwledig a Llywodraeth Cynulliad Cymru*

O'r busnesau a arolygwyd, roedd 2% wedi manteisio'n uniongyrchol ar fentrau ariannol Llywodraeth y Cynulliad, megis grantiau a benthyciadau. Beirniadodd rhai ymatebwyr Lywodraeth y Cynulliad am ganolbwyntio ar fusnesau mawr, am ei dulliau marchnata mentrau a rhaglenni, ac oherwydd ei chysylltiadau â busnesau yn gyffredinol.

*Busnesau Gwledig a'r Amgylchedd*

Dywedwyd bod costau yn atal ailgylchu, ac felly hefyd y gyfundrefn o reoliadau ynghylch ailgylchu gwastraff busnes. Er hynn, roedd 61% o'r busnesau yn yr arolwg yn ailgylchu cynhyrchion gwastraff. Roedd ychydig yn fwy na hanner y busnesau a arolygwyd (53%) yn cymryd rhan mewn menter amgylcheddol megis plannu coed, gwrthbwyso carbon neu bwer gwyrdd. Er hynny, er gwaethaf lefelau cynyddol o ymwybyddiaeth a phryder amgylcheddol, dros y pum mlynedd diwethaf roedd bron dwywaith yn fwy o fusnesau wedi cynyddu'r ynni roedden nhw'n ei ddefnyddio nag a sicrhaodd ostyngiad.

## Defnyddio'r Rhyngrwyd ymhlith Busnesau

Gall y rhyngrwyd fod yn offeryn grymus ar gyfer busnes ac o'r 67% o'r ymatebwyr oedd â chysylltiad â'r rhyngrwyd, roedd 80% wedi cynyddu eu defnydd arno dros y pum mlynedd diwethaf. Cwynai rhai o'r ymatebwyr fod y cysylltiadau band eang yng nghefn gwlad Cymru yn wael neu'n absennol. Roedd gan

eraill amheuon ynghylch effeithiolrwydd y rhyngrwyd fel offeryn ar gyfer busnes ac ynghylch ei botensial ar gyfer twyll.

Roedd llawer o'r rhai a oedd yn defnyddio mwy ar y rhyngrwyd yn credu ei fod yn angenrheidiol ar gyfer busnes. Soniodd y rhain am fanteision e-bost ac e-gyfathrebu a'r ffaith ei fod ar gael ym mhobman a sôn am ddefnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion cyfrifon a chadw llyfrau, fel cyfrwng hysbysebu, fel ffordd i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr, ac fel dull ymchwilio.

### Gwybodaeth Ariannol

Dros y pum mlynedd diwethaf, roedd 58% o'r busnesau wedi cynyddu eu trosiant, ac roedd 42% wedi cynyddu eu helw. Dangosodd dadansoddiad ar y data fod costau gweithredu busnesau wedi tueddu i godi.

O'r busnesau a ymatebodd, roedd hanner wedi ehangu dros y pum mlynedd diwethaf, roedd 35% wedi aros yr un fath, ac roedd 15% wedi crebachu.

Soniodd yr ymatebwyr am farchnadoedd newydd ac ehangach yn sgil cynnydd mewn adrannau o'r boblogaeth, megis myfyrwyr mewn rhai ardaloedd, a phobl hyn yng nghefn gwlad Cymru yn fwy cyffredinol. Roedd marchnadoedd newydd a marchnadoedd arbenigol yn ffurfio ar gyfer cynhyrchion organig a chynhyrchion a gwasanaethau amgylcheddol a charbon-niwtral. Roedd y ffactorau hyn yn cyfrannu at optimistiaeth busnesau, gyda 40% o'r ymatebwyr yn bwriadu ehangu eu busnes dros y ddwy flynedd nesaf. Ar y llaw arall, cyfeiriai'r 53% o'r ymatebwyr a ragwelai y byddent yn crebachu at hinsawdd economaidd nad oedd yn hybu llwyddiant busnesau, prinder gweithwyr medrus, a marchnadoedd oedd yn crebachu.

### Busnesau Gwledig a Newid

Roedd y newidiadau cadarnhaol ar gyfer busnesau yn y pum mlynedd diwethaf yn cynnwys newid perchnogaeth, ymgorffori, partneriaeth a materion perthynol, mangreoedd newydd ac ehangach, cynhyrchion newydd a mathau eraill o ehangu.

Roedd y newidiadau negyddol y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys mwy o reoliadau, polisïau ac ymyrraeth y llywodraeth, dyfodiad cystadleuwyr mawr i'r marchnadoedd llafur lleol, a chynnydd cyffredinol mewn costau, yn enwedig costau ynni.

Doedd effeithiau rhai o'r newidiadau ddim yn glir. Er enghraifft, roedd rhai busnesau o'r farn bod cyflwyno band eang a gwell cysylltiadau â'r rhyngrwyd yn fantais i'w busnes; dadleuai eraill eu bod wedi colli cwsmeriaid i werthiannau dros y rhyngrwyd. Yn yr un modd, roedd rhai busnesau'n gweld mewnlifiad llafurwyr o ddwyrain Ewrop fel cyfle, tra oedd eraill yn ei weld fel bygythiad.

## Gwybodaeth Bellach

Cyhoeddir yr adroddiad llawn, Arolwg Cartrefi 2008, gan y WRO. Mae ar gael am ddim i'w lawrlwytho oddi ar:
**www.walesruralobservatory.org.uk**

Tel: 029 208 74970

e-bost: wro@cardiff.ac.uk